



Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.



Comisiynydd Heddlu a Throseddau
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Comisiynydd Heddlu a Throseddau Dyfed-Powys

Ymarfer Hap-samplu y Panel Craffu

Achosion Ymosodiad

Canfyddiadau ac Adborth Aelodau'r Panel ar achosion Oedolion

Gorffennaf 2026

Cynnwys

1.0	Trosolwg	Error! Bookmark not defined.
2.0	Cefndir, diben a methodoleg.....	3
3.0	Cymeradwyaeth gan Gadeirydd y Panel.....	3
4.0	Camau a gymerwyd yn dilyn cyfarfod blaenorol y panel	4
5.0	Meysydd i'w gwella	4
6.0	Ystyried Achosion Oedolion	4
	<i>Achos 1</i>	5
	<i>Achos 2</i>	5
	<i>Achos 3</i>	6
	<i>Achos 4</i>	6
	<i>Achos 5</i>	6
	<i>Achos 6</i>	7
	<i>Achos 7</i>	7
	<i>Achos 8</i>	7
7.0	Asesiadau'r Panel hyd yma.....	8
8.0	Ethnigrwydd a Rhyw	9
9.0	Ffocws y Panel yn y Dyfodol	9
10.0	Camau Gweithredu	10

1.0 Trosolwg

Ar 1 Gorffennaf 2026, aeth aelodau o'r Panel Craffu ar Ddatrysiadau y Tu Allan i'r Llys i gyfarfod i adolygu detholiad o wyth achos oedolion ac wyth achos ieuenctid yn ymwneud â throeddau ymosod yr ymdriniwyd â hwy drwy ddatrysiad y tu allan i'r llys. Lle'r oedd yn bosibl, ystyriodd y panel achosion a oedd yn ymwneud ag ymosodiad yn erbyn gweithiwr brys. Bydd yr adroddiad hwn yn canolbwyntio ar ganfyddiadau'r panel mewn perthynas â'r achosion oedolion.

Cynhaliwyd y cyfarfod hwn yn rhithwir trwy gyfrwng Microsoft Teams.

2.0 Cefndir, diben a methodoleg

Diben y Panel Craffu ar Ddatrysiadau y Tu Allan i'r Llys yw asesu, craffu a rheoli yn annibynnol ansawdd y defnydd o ddatrysiad y tu allan i'r llys gan Heddlu Dyfed-Powys. Gall y panel wneud argymhellion, rhoi adborth ar achosion unigol i swyddogion, cyfathrebu canfyddiadau, hyrwyddo arferion gorau a nodi anghenion datblygu polisi neu anghenion hyfforddi posibl i'w hystyried gan yr heddlu neu asiantaethau eraill sy'n gysylltiedig. Ni all y panel newid canlyniad gwreiddiol yr achos.

Mae aelodaeth y panel yn cynnwys partneriaid o fewn y system cyfiawnder troseddol sy'n cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, aelodau o Heddlu Dyfed-Powys, Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu, y Gwasanaeth Prawf, Gwasanaeth Erlyn y Goron, y Tîm Cyfiawnder Ieuenctid a mainc o ynadon.

Gyda'i gilydd mae aelodau'r panel yn cytuno ar faes i ganolbwyntio arno ym mhob cyfarfod. Maent yn cael ffeiliau achos perthnasol bythefnos cyn pob cyfarfod, sydd wedi'u dewis ar hap gan gadeirydd y panel. Yna, mae'r panel yn cyfarfod i drafod pob achos a, lle bo'n bosibl, yn dod i gasgliad ynghylch priodoldeb y datrysiad. Wrth benderfynu ar hyn, mae'r panel yn ystyried y meini prawf canlynol:

- barn ac adborth y dioddefwr a'r troseddwr.
- cydymffurfedd â pholisi'r heddlu.
- y rhesymeg dros y penderfyniad a'r canlyniad.
- yr effaith bosibl ar y gymuned.
- yr amgylchiadau a difrifoldeb y drosedd.
- opsiynau eraill posibl a allai fod wedi bod ar gael.

Mae'r panel yn trafod pob achos ac yn eu categoreiddio fel un o'r canlynol:

- defnydd priodol sy'n gyson â pholisi.
- defnydd priodol ond bod gan aelodau'r panel amheuan.
- defnydd amhriodol neu anghyson â pholisi.
- y panel yn methu â dod i gasgliad.

3.0 Cymeradwyaeth gan Gadeirydd y Panel

Gallaf Carys Morgans (enw mewn print) gadarnhau fy mod wedi darllen yr adroddiad, a'i fod yn cynrychioli'n llawn y safbwyntiau a fynegwyd gan y panel yn ystod ein hymarfer hapsamplu dyddiedig 01 Gorffennaf 2026.

Llofnodwyd:



Dyddiad: 24/09/26

4.0 Camau a gymerwyd yn dilyn cyfarfod blaenorol y panel

O ganlyniad i waith y Panel Craffu ar Ddatrysiadau y Tu Allan i'r Llys, mae'r camau gweithredu canlynol wedi'u cwblhau ers y cyfarfod diwethaf:

- Rhoddwyd adborth i swyddogion i fynd i'r afael â'r amheuan y tynnodd aelodau'r panel sylw atynt
- Rhoddwyd adborth i swyddogion lle y penderfynodd y panel fod datrysiad y tu allan i'r llys wedi'i ddefnyddio'n amhriodol.

5.0 Meysydd i'w gwella

Nodwyd y meysydd canlynol i'w gwella yn ystod yr adolygiad o achosion oedolion.

- Nodwyd y gellid gwella amseroldeb cynnal yr ymchwiliad a chyhoeddi datrysiad y tu allan i'r llys ar gyfer rhai o'r achosion a adolygwyd. Roedd hyn yn broblem yn arbennig pan oedd y defnydd priodol o Ddatrysiad Cymunedol Oedolyn yn amlwg o'r cychwyn, ond roedd y swyddog wedi cymryd amser hi i gyhoeddi un.
- Tynnodd yr aelodau sylw at ddiffyg llofnodion dioddefwyr ar y ffurflenni fel problem.

6.0 Ystyried Achosion Oedolion

O'r wyth achos yn ymwneud ag oedolion a ystyriwyd gan y panel, ymdriniwyd â dau drwy rybuddiad amodol ar gyfer oedolion, ac ymdriniwyd â'r chwe achos arall drwy ddatrysiad cymunedol oedolion. Wrth asesu priodoldeb eu gweithredu, daeth y panel i'r casgliad canlynol:

Asesiad yr aelodau	Nifer yr achosion
Priodol	2
Priodol ond gydag amheuon	6
Amhriodol	0
Wedi methu â dod i gasgliad	0

Manylir ar sylwadau aelodau'r panel isod.

Achos 1

Trafododd yr aelodau'r ymgysylltu clir trylwyr gyda'r gwasanaethau plant a'r camau cadarnhaol a gymerwyd gan swyddogion i siarad yn uniongyrchol â'r plant. Braf oedd gweld y gwaith amlasiantaeth adeiladol yn cael ei gyflawni o fewn yr achos hwn. Fodd bynnag, roedd yr aelodau'n poeni am y diffyg cyfaddefiad llawn gan y troseddwr honedig a chwestiynwyd p'un a fyddai rhybudd amodol wedi bod yn fwy priodol yn yr achos hwn. Gan hynny, ystyriodd y panel fod y canlyniad yn briodol ond gydag amheuon.

Asesiad y panel: Priodol ond gydag amheuon

Achos 2

Nododd y panel y byddai'r achos hwn wedi bod yn gymwys ar gyfer datrysiad cymunedol oedolyn o'r cychwyn, felly, er budd amseroldeb, gallai fod wedi'i weinyddu'n gynt. Tynnodd yr aelodau sylw hefyd at y ffaith nad oedd y ffurflen wedi'i llofnodi gan y dioddefydd, felly roedd yn aneglur p'un a oedd y dioddefydd yn cytuno â'r canlyniad ai peidio. Cafwyd trafodaeth mewn perthynas â gallu swyddogion i gadarnhau bod ffurflen yn gyflawn heb lofnod a chytunwyd y byddai Heddlu Dyfed-Powys yn edrych ar ddatrysiad TG ar gyfer hyn. Gan hynny, ystyriodd y panel fod y canlyniad yn briodol ond gydag amheuon.

Asesiad y panel: Priodol ond gydag amheuon

Cam Gweithredu 1: Swyddog(ion) i dderbyn adborth y Panel am Achos Oedolyn 2 mewn perthynas ag amseroldeb o ran dod i benderfyniad, a diffyg llofnod/naratif gan y dioddefydd.

Cam Gweithredu 2: Heddlu Dyfed-Powys i gyflwyno ymholiad TG mewn perthynas ag Achos Oedolyn 2, a pha un ai a ellid gweithredu newid proses i osgoi cau achosion pan mae llofnodion yn weddill.

Achos 3

Ystyriodd y panel briodoldeb rhybudd amodol ar gyfer yr achos hwn ac awgrymodd y byddai datrysiad cymunedol oedolyn yn fwy addas. Nodwyd y dylid sefydlu amodau cryfach os yw rhybudd amodol yn cael ei ddefnyddio. Sylwodd yr aelodau hefyd ar amseroldeb yr achos hwn, gan gwestiynu p'un a oedd cyfweiliadau hwyrach gyda thystion wir yn dylanwadu ar y canlyniad. Gan hynny, ystyriwyd bod y canlyniad hwn yn briodol gyda rhai amheuon o gwmpas amseroldeb a'r math o ddatrysiad tu allan i'r llys a ddefnyddiwyd.

Asesiad y panel: Priodol ond gydag amheuon

Cam Gweithredu 3: Rhoi adborth i'r swyddog(ion) mewn perthynas ag Achos Oedolyn 3.

Achos 4

Nododd yr aelodau panel nad oedd awdurdod Arolygydd ar gyfer yr achos hwn. Rhoddwyd adborth hefyd ar safon y gwaith papur a'r diffyg manylion ar gyfer rhoi cyd-destun. Dylai'r swyddog cyfrifol hefyd fod wedi cyfeirio'r troseddwr honedig i'r cynllun dargyfeiriol. Gan hynny, ystyriwyd bod y canlyniad ei hun yn briodol ond gydag amheuon.

Asesiad y panel: Priodol ond gydag amheuon

Cam Gweithredu 4: Rhoi adborth i'r swyddog(ion) mewn perthynas â phwysigrwydd cynnwys manylion yn y naratif, y gofyniad i gyfeirio i'r cynllun dargyfeiriol, a diffyg awdurdodiad Arolygydd yn Achos Oedolyn 4.

Achos 5

Teimlai'r aelodau mai ôl-ystyriaeth oedd yr ymosodiad mewn perthynas â'r achos hwn, gan nodi bod y gwaith papur yn aneglur. Eto, nodwyd y byddai cyfeiriad i'r

cynllun dargyfeiriol wedi bod yn fuddiol ar gyfer y troseddwr honedig. Yn ogystal, nid oedd y canlyniad yn cynnwys cyfaddefiad gan y troseddwr honedig i'r ymosodiad. Ystyriodd y panel fod y canlyniad hwn yn briodol ond gydag amheuan.

Asesiad y panel: Priodol ond gydag amheuan

Cam Gweithredu 5: Rhoi adborth i'r swyddog(ion) mewn perthynas ag Achos Oedolyn 5.

Achos 6

Sylwodd y panel ar y defnydd da o'r cynllun naw pwynt o fewn yr achos hwn. Cafwyd trafodaeth am y nodiadau manwl da. Ystyriodd y panel fod y canlyniad yn briodol.

Asesiad y panel: Priodol

Achos 7

Eto, sylwodd y panel ar y defnydd da o'r cynllun naw pwynt i hysbysu penderfyniadau. Ystyriwyd hefyd bod y goruchwilydd wedi rhoi rhesymeg dda o fewn y nodiadau. Fodd bynnag, nododd yr aelodau ei fod wedi cymryd amser hir i gyhoeddi'r datrysiad cymunedol oedolyn. Ystyriwyd bod y canlyniad hwn yn briodol gydag amheuan.

Asesiad y panel: Priodol ond gydag amheuan

Cam Gweithredu 6: Rhoi adborth sefydliadol i Heddlu Dyfed-Powys mewn perthynas ag amseroldeb mewn sawl achos.


Achos 8

Cytunodd y panel fod yr achos hwn wedi'i drin yn dda. Braf oedd gweld cyfaddefiad llawn a chytundeb gan y dioddefydd cyn i'r datrysiad tu allan i'r llys gael ei weinyddu. Ystyriodd y panel fod yr achos hwn yn briodol.


Asesiad y panel: Priodol

7.0 Asesiadau'r panel hyd yma

Mae ffigur 1 yn arddangos asesiad y Panel o achosion ymosod sy'n ymwneud ag oedolion a ystyriwyd yn y cyfarfod diweddaraf. Mae ffigur 2 yn rhoi trosolwg o'r math o warediad a ddefnyddiwyd yn yr achosion a ddadansoddwyd gan y panel.



Ffigur 1



Ffigur 2

8.0 Ethnigrwydd a Rhyw

Mae'r tablau canlynol yn dangos dadansoddiad o'r achosion o ran rhyw ac ethnigrwydd:

Rhyw	Nifer a nodwyd
Benyw	4
Gwryw	4

Ethnigrwydd	Hunan-asesiad	Asesiad Swyddog y
Gwyn Prydeinig	6	0
Gwyn – Gogledd Ewrop	0	6
Heb nodi	2	2

Ni nodwyd unrhyw faterion cydraddoldeb o ran hil na rhyw fel rhan o adolygiad y Panel.

9.0 Ffocws y Panel yn y Dyfodol

Yn dilyn trafodaeth, penderfynodd y panel yr hoffent ganolbwyntio ar achosion yn ymwneud â Lladradau a Byrgleriaethau yn y cyfarfod nesaf.

10.0 Camau Gweithredu

OOCR - 170	Swyddog(ion) i dderbyn adborth y Panel am Achos Oedolyn 2 mewn perthynas ag amseroldeb o ran dod i benderfyniad, a diffyg llofnod/naratif gan y dioddefydd.	
OOCR - 171	Heddlu Dyfed-Powys i gyflwyno ymholiad TG mewn perthynas ag Achos Oedolyn 2, a pha un ai a ellid gweithredu newid proses i osgoi cau achosion pan mae llofnodion yn weddill.	
OOCR - 172	Rhoi adborth i'r swyddog(ion) mewn perthynas ag Achos Oedolyn 3.	
OOCR - 173	Rhoi adborth i'r swyddog(ion) mewn perthynas â phwysigrwydd cynnwys manylion yn y naratif, y gofyniad i gyfeirio i'r cynllun dargyfeiriol, a diffyg awdurdodiad Arolygydd yn Achos Oedolyn 4.	

OOOCR - 174	Rhoi adborth i'r swyddog(ion) mewn perthynas ag Achos Oedolyn 5.	
OOOCR - 175	Rhoi adborth sefydliadol mewn perthynas ag Achos Oedolyn 7	